

# **Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog.**

## **Cofnodion cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, GAERWEN ar Nos Fawrth, 1af HYDREF 2019.**

**1 Presennol: Cynghorwraig Ms Linda Jones (Cadeirydd),  
Cynghorwyr Mrs Barbara Mckeaveney,  
Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mrs Ffion Mon Bullock, Mr  
Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr John Pritchard,  
Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).**

**2 Ymddiheuriadau:**

**Cynghorwyr Mr Raymond Evans & Mr Ian Owen.  
Cynghorwyr Sirol Mr Dafydd Roberts & Mr Eric Jones**

**3 CROESO & DIOLCHIADAU.**

3.1 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**4 DATGAN DIDDORDEB.**

4.1 Nid dderbyniwyd/chafwyd neb yn datgan diddordeb mewn unrhyw eitem ar y rhaglen.

**5 YMGYNGHORIAD CAIS CYNLLUNIO TYDDYN RHYDD, GAERWEN.**

5.1 Croesawyd y datblygwyr, asiant ac ymgeisydd y cais cynllunio i'r cyfarfod ac rhoddwyd cyflwyniad llawn am odditeu 20 munud o'r cynllun datblygu i aelodau y Cyngor ynghyd a cynlluniau dan sylw. Cafodd pob aelod o'r Cyngor y cyfle i ofyn cwestiynnau perthnasol ac fe ddiolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod draw ac egluro'r datblygiad i'r Cyngor. Yr unig sylwadau a nodwyd i'r ddogfen ymgynghori ar hyn o bryd oedd y dylai ystyried adeiladu mynedfa addas i'r A5 oherwydd ei leoliad ac, yn amlwg, y bydd cynnydd mewn symudiad traffig ac hefyd i roi ystyriaeth ddyledus i adeiladu carthffosiaeth ddigonol (CJ/RR). Disgwylir cais cynllunio llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

**Arwyddo.....**

**Tudalen 1.**

## **6 MATERION CHWAREL BWLCH GWYN.**

- 6.1 Croesawyd Mr Glyn Davies, Mr Rhys Davies a Mr Rhodri Thomas I'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ugain munud gyda'r tri ac roeddynt, yn benodol, angen dwyn sylw a cyflwyno sawl cwyn i'r Cyngor Cymuned Nid oeddynt yn hapus gyda trefn ers i'r chwarel ail-agor, yn enwedig fod defnydd y chwarel yn cael effaith andwyol ar y gymuned. Nodwyd nad oedd y cerbydau trwm yn dangos unrhyw barch ac roeddynt yn pryderu nad oedd y Cyngor Sir yn cadw golwg barcud ar amodau derbyn y cais cynllunio. Dangoswyd lluniau yn cadarnhau'r pryderon yma ac fe ddiolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod a'r cwyn i sylw y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd aelodau y Cyngor ofyn i'r Clerc lunio llythyr cry far rhan y Cyngor Cymuned a'i anfon I'r Adran Cynllunio, Pennaethiaid y Cyngor Sir gyda copi i'r Cynghorwyr Sirol a Mr Rhun ap Iorwerth AS. (EPW/CJ).

Hefyd, y Clerc i anfon llythyr i'r Cyngor Sir ystyried gorchymyn 'Dim Cerbydau Trwm' i rhwystro Cerbydau Mawr fynd ar hyd Lon Graig.

## **7 CYWIRO & ARWYDDO COFNODION.**

- 7.1 **Pwyllgor Arbennig – 25ain Mehefin 2019** – cynnig gan (DH) ac eiliwyd gan (JP) fod y cofnodion yn gywir.
- 7.2 **Pwyllgor Llawn – 23ain Gorffennaf 2019** - cynnig gan (DH) ac eiliwyd gan (JP) fod y cofnodion yn gywir.

## **8 MATERION YN CODI O'R COFNODION.**

- 8.1 **Llwybr Rhif 33** – roedd y Clerc wedi siarad gyda Mr Arwel Evans o'r Cyngor Sir a gofyn iddo ymweld a'r safle pan fydd yn gyfleus.
- 8.2 **Giat Cae Chwarae Mawr** – roedd y Clerc wedi anfon llythyr i atgoffa'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ystyried gosod llinellau gwyn a'r Lon Groes tu allan mynediad y Cae Chwarae a gofyn i gwmni G L Jones o Fethesda, atgyweirio'r giat bach i mewn i offer Cae Chwarae Mawr yn dilyn derbyn yr Arolygiad blynyddol.
- 8.3 **Lon Llangaffo** – roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Adran Briffyrdd yn gofyn iddynt ail-leoli arwydd 40mya tuag at cyfeiriad Llangaffo.
- 8.4 **Lles Cae Chwarae (Clwb Pel Droed)** – y Clerc am gysylltu gyda'r Adran Eiddo yn gofyn iddynt am symud ymlaen o'r sefyllfa diweddaraf ac anfon llythyr swyddogol i'r Cyngor Cymuned gyda argymellion.

**Arwyddo.....**

**Tudalen 2.**

- 8.5 **Cynnal & Cadw Gwyneb Safle Maes Chwarae** – roedd y Clerc wedi derbyn ail bris ac oherwydd y symiau dan sylw (£25k) fe awgrymodd y dylai wneud cais trwy Ymddiriedolaeth Elusen y Cyngor Sir yn y flwyddyn newydd a sicrhau y dylai gwario rhan helaeth o'r arian mewn llaw tuag at y cynllun er mwyn ufuddhau rheolau y grant.
- 8.7 **Archwiliad Blynyddol Offer Caeau Chwarae** – dosbarthwyd copi i pob aelod a gofynnodd y Clerc am unrhyw sylwadau arno erbyn y cyfarfod nesaf. Hefyd, unrhyw offer oedd angen sylw/gwariant arno.
- 8.8 **Cofrestr Asedau y Cyngor** – roedd y rhestr wedi ei drosglwyddo i law y Clerc ar gyfer yr Archwiliad Blynyddol ac roedd am ddarparu ddogfen newydd yn y flwyddyn newydd er mwyn ufuddhau gofynion yr Archwilydd Mewnol.
- 8.9 **Biniau Cae Chwarae** - angen gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod biniau newydd oherwydd difrod i'r rhai presennol.
- 8.10 **Llwybr Phoenix Metals** – angen dwyn sylw i'r Cyngor Sir fod angen torri gordyfiant ar hyd y llwybr.
- 8.11 **Gorchudd Tyllau Caead** – anfon llythyr i'r Cyngor Sir fod angen dwyn sylw i pob un ohonynt ar hyd yr A5.
- 8.12 **Hen Safle Little Chef** - angen dwyn sylw i'r Cyngor Sir fod angen torri y gordyfiant.
- 8.13 **Datblygiad Maes Parcio Cyffordd 7 A55) GAERWEN (FPL/2018/30)** cafwyd adroddiad byr o sefyllfa/datblygiad diweddaraf y cynllun yma.

## **9 MATERION CYLLID.**

- 9.1 Cysoni Taliadau, Derbyniadau & Cyfrif y Cyngor hyd at 31/08/2019 – cafwyd esboniad llawn o holl wariant y Cyngor am misoedd Gorffennaf a Awst 2019 gan cynnwys y cysoniad. Derbyniwyd yn unfrydol gan yr aelodau ac fe arwyddodd y Cadeirydd y fantolen banc.
- 9.2 Nodwyd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Eglwys y Gaerwen yn diolch am ei rhodd ariannol.

**Arwyddo.....**

**Tudalen 3.**

**10 ARCHWILIAD BLYNYDDOL**

10.1 Cadarnhaodd y Clerc fod Cwmni BDO wedi cyflawni yr Archwiliad ac fe ddsbarthodd copi I pob aelod er gwybodaeth. Roedd hefyd wedi lawrlwytho copi ar wefan y Cyngor yn unol a rheolau/ddeddf.

**11. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.**

11.1 **Cais Cynllunio Llawn Addasu & Ehangu Tyddyn, Gaerwen (HHP/2019/222) – DIM SYLWADAU/GWRTHWYNEBIAD AR Y CYNLLUN DATBLYGU.**

**12. ADRODDIADAU.**

12.1 Ni chafwyd unrhyw adroddiadau mis yma.

**13 GOHEBIAETH.**

13.1 **Cyfnod Ymgynghori Caban BT** – nodwyd nad oedd fawr o ddefnydd I'r Kisok Ffon ac argymellodd y Clerc i'r aelodau ystyried gosod peiriant ddifibriliwr newydd yn ei le. **CYTUNWYD YN UNFRYDOL.**

**Y Clerc i wneud y trefniadau perthnasol.**

13.2 **Pencampwyr Iaith Gymraeg** – roedd y Cyngor Sir angen pob Cyngor Cymuned enwebu aelod I fod yn Pencampwr yr Iaith Gymraeg – penodwyd Mrs Ffion Mon Bullock i gynrychioli'r Cyngor.

13.3 **Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref & Chymuned** – dosbarthwyd copi cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd 18/7/2019.

13.4 **Blaenrhaglen Gwaith y Cyngor Sir** – derbyniwyd er gwybodaeth yn unig.

13.5 **Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Môn** – derbyniwyd er gwybodaeth yn unig.

**14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF -22ain HYDREF 2019.**

14.1 Clowyd y cyfarfod am 8:55yh.

**Arwyddo.....CADEIRYDD.....Dyddiad.**